


HUGHES, JOHN (1796 - 1860), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, ac awdur



Enw: John Hughes
Dyddiad geni: 1796
Dyddiad marw: 1860
Plentyn: Catherine Tudor Roberts (née Hughes)
Rhiant: Mary Hughes
Rhiant: Hugh Hughes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd, ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Adwy'r Clawdd, 11 Chwefror 1796, yn fab i Hugh (saer coed) a Mary Hughes, ac yn wŷr i Richard Hughes o'r Sarffle, Llanarmon Dyffryn Ceiriog; yr oedd felly'n frawd i **Richard Hughes**, yr argraffydd yn Wrecsam, ac yn gyfyrder i **John Ceiriog Hughes**.

Dechreuodd bregethu yn 1813, ac yn 1815 aeth i gadw ysgol mewn gwahanol fannau; yn 1819 agorodd ysgol yn Wrecsam, y bu iddi gryn enw, oblegid heblaw addysgu plant, derbynai John Hughes wŷr hŷn a wynebai ar y weinidogaeth, a bu amryw o bregethwyr blaenllaw y Methodistiaid Calфинаidd (megis **Roger Edwards**) dan ei addysg - nid oedd gan y Methodistiaid Calфинаidd athrofa swyddogol ar y pryd. Daliodd at yr ysgol hon hyd 1834.

Yn y cyfamser, yr oedd wedi tyfu'n bregethwr o fri, ond nid ordeiniwyd ef cyn 1829, am fod Uchel-Galfiniaid eithafol ei gyfarfod misol yn barnu nad oedd yn iach yn y ffydd. Prif amcan ei symud i fasnach yn Adwy'r Clawdd yn 1834 ac wedyn i Lerpwl yn 1838 oedd cael mwy o ryddid i bregethu; ac yn fuan wedi symud i Lerpwl rhyddhawyd ef i fugeilio Methodistiaid y ddinas, gyda **Henry Rees**. Bu farw yn Abergele, 8 Awst 1860.

Sgrifennodd amryw lyfrau; y pwysicaf ohonynt yw *Methodistiaeth Cymru* (tair cyfrol, 1851-6), llyfr go hynod pan ystyriwn ei gyfnod, a llyfr sydd heddiw eto'n anhepgor ar waethaf ei ddiffygion. Yn wir, y mae John Hughes yn bwysicach dyn nag a lawn sylweddolwyd eto. Am amryw resymau, yr oedd Methodistiaeth ei deulu'n fwy ' Ymneilltuol ' nag a oedd yn gyffredin yn yr oes honno, a bu yntau'n ddylanwad mawr yn ymryddhad graddol ei enwad oddi wrth y geidwadaeth mewn byd ac eglwys a'i nodweddai gynt; yr oedd yn ddylanwad pwysig ar **Henry Rees**, ac yn gefn i **Lewis Edwards** a **Roger Edwards** a'u tebyg. Y mae cofiant iddo, gan **Roger Edwards** a **John Hughes** (1864).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **John Hughes** (Lerpwl)

Delweddau

LIGC: Llyfr Ffotograffau Cartes-de-Visite Album, t.9

John Thomas, *Er cof am y Parch. John Hughes*, Liverpool. Bu farw Awst 8fed 1860 yn 63 oed

T. Roberts, J. McGahey, **John Hughes**

Daniel Jones, Maclure, Macdonald and Macgregor, *Rev. John Hughes*, Liverpool

Daniel Jones, Maclure, Macdonald and Macgregor, *Parch. John Hughes*, Liverpool

Gweithiau

John Elias, John Hughes, *Nodiadau amryw o bregethau y diweddar Barch. John Elias, MĀ`n* (Caernarfon c.1850)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 96873482

Wikidata: Q18671852

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jenkins, R. T., (1953). HUGHES, JOHN (1796 - 1860), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HUGH-JOH-1796>

Copïo

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Wedi'i gynhyrchu gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government